Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr
Chief Officer (Governance)
Prif Swyddog (Llywodraethu)

Y Cynghorydd Eryl Williams (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Aaron Shotton, Kevin Jones, Dave Cowans, Michael Priestley, David Smith, John Wynn Jones, Richard Dew and J. Arwel Roberts

CS/NG

27 Tachwedd 2015

Nicola Gittins 01352 702345
nicola.gittins@flintshire.gov.uk

Annwyl Syr / Fadam

Cynhelir Cyfarfod **CYD-BWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU** yn **OPTIC GLYNDWR, PARC BUSNES LLANELWY, LLANELWY, LL17 0JD** ar **DYDD LLUN, 7 RHAGFYR 2015** am **2.00 y.p** i drafod y materion canlynol.

Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor nodi y newid mewn lleoliad

****Fe fydd WTI ar gael ar leoliad i'w alw mewn i'r cyfarfod fel bo angen****

Yr eiddoch yn gywir

Peter Evans
Rheolwr Democratiaeth a Rheolaeth

A G E N D A

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGAN DIDDORDEB**

3 **CYMERADWYO COFNODION BLAENOROL**

4 **MATERION YN CODI O'R CYFARFOD BLAENOROL**

5 **ADRODDIAD CYNNYDD (ADRODD I DDILYN)**

6 **DIWEDDARIAD ARIANNOL**

6a) ADRODDIAD BLYNYDDOL
6b) STATWS CYLLID (ADRODD I DDILYN)

7 **RHWYDWAITH GORSAFOEDD TROSGLWYDDO GWASTRAFF (LLAFAR)**

DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 – I GYSIDRO EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD

Mae'r eitemau isod yn cael ei gysdrio fel eitem i'w eithrio dan paragraff(au) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Lleol 1972 (fel a ddiwygwyd)

Mae'r proses cytundeb yn fyw a byddai'n rhagfarnllyd i'w wneud yn gyhoeddus ar hyn o bryd.

8 **DIWEDDARIAD CAFFAEL (ADRODDIAD A CHYFLWYNIAD AR Y DIWRNOD)**

9 **UNRHYW FATER ARALL**

NWRWTP
North Wales Residual Waste Treatment Project

CYDBWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU

Dydd Gwener, 5 Mehefin 2015 am 2.00 pm
Bodlondeb, Conwy

_____

PRESENNOL:

Cynghorydd Eryl Williams (Cadeirydd)	Cyngor Sir Ddinbych
Cynghorydd Richard Dew	Cyngor Sir Ynys Môn
Cynghorydd Kevin Jones	Cyngor Sir y Fflint
Cynghorydd John Wynn Jones	Cyngor Gwynedd
Cynghorydd Mike Priestley	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cynghorydd Aaron Shotton	Cyngor Sir y Fflint
Cynghorydd David Smith	Cyngor Sir Ddinbych

HEFYD YN BRESENNOL:

Cyngor Sir y Fflint
Colin Everett (Prif Weithredwr Arweiniol), David Webster (Rheolwr Archwilio Mewnol) a Gary Ferguson (Swyddog Adran 151)

Cyngor Sir Ddinbych
Steve Parker (Pennaeth Amgylchedd)

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Ken Finch (Cyfarwyddwr Strategol – Democratiaeth a Rheoleiddio) ac Andrew Wilkinson (Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth

Cyngor Gwynedd
Medwyn Williams (Uwch Reolwr – Trin Gwastraff)

Cyngor Sir Ynys Môn
Meirion Edwards (Swyddog Technegol Arweiniol)

Local Partnerships UK
Huw Roberts (Ymgynghorydd)

1. **ETHOL CADEIRYDD**

PENDERFYNWYD:-

Y Cynghorydd Eryl Williams i'w ethol fel Cadeirydd Cydbwyllgor Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru ar gyfer 2015/2016.

2. **ETHOL ISGADEIRYDD**

Er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod lle byddai'r cyfleuster yn cael ei adeiladu yn cael ei gynrychioli ac at ddibenion parhad ar gyfer 2015/2016, cytunwyd i benodi dau Is-Gadeirydd ar gyfer 2015/16.

PENDERFYNWYD:-

Penodi'r Cynghorydd Kevin Jones a'r Cynghorydd Mike Priestley fel Is-gadeiryddion Cydbwyllgor Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru ar gyfer 2015/2016.

3. **YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd J. Arwel Roberts (Cyngor Sir Ynys Môn), Dewi Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Gareth Owens (Cyngor Sir y Fflint), Dilwyn Williams (??) Parry-Jones (??)

4. **DATGAN DIDDORDEB**

Dim.

5. **CYMERADWYO COFNODION BLAENOROL**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o Gyd Bwyllgor Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2015 i'w cymeradwyo.

PENDERFYNWYD - *Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod o Gyd Bwyllgor Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2015 fel cofnod cywir, yn destun i'r diwygiad uchod.*

6. **MATERION YN CODI O'R COFNODION BLAENOROL**

Mynegwyd pryder nad oedd y cofnodion yn adlewyrchu faint o drafodaeth fanwl a gafwyd yng nghyfarfodydd y Cydbwyllgor, yn enwedig y pryderon a godwyd gan yr Aelodau.

Dywedwyd wrth yr Aelodau, gan fod y cofnodion yn ddogfen gyhoeddus, nad oedd y drafodaeth ar wybodaeth eithriedig yn cael ei chynnwys yn y cofnodion cyhoeddus.

7. **FFURFLEN FLYNYDDOL**

Cyflwynwyd Ffurflen Flynyddol Partneriaeth Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru am y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2015 i'r Aelodau i'w chymeradwyo.

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i bob Cydbwyllgor baratoi cyfrifon diwedd blwyddyn. Cafodd y Rheoliadau eu diweddaru yn 2014; o ganlyniad roedd y math o gyfrifon, a'r trefniadau cyfrifon ac archwilio i'r Cydbwyllgor wedi newid ar gyfer 2015.

Dynodwyd y Cydbwyllgor fel corff perthnasol llai gan fod ei incwm a'i wariant gros yn llai na £2.5 miliwn yn y flwyddyn gyfrifyddu. Y math o

gyfrifon yr oedd angen i gorff llai eu cynhyrchu oedd Ffurflen Flynyddol a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru. Yn 2013/14 dynodwyd y Cydbwyllgor fel corff mwy o faint, ac roedd gofyn iddo gynhyrchu set gynhwysfawr o gyfrifon tebyg i rai Cyngor.

Rhaid i'r Ffurflen Flynyddol gael ei llofnodi gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol a'i chymeradwyo gan y Cydbwyllgor cyn y dyddiad cau, sef 30 Mehefin 2015. Dechreuodd yr archwiliad ar ôl i'r Cydbwyllgor gymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol.

Rhaid i'r archwiliad gael ei gwblhau a chyhoeddi'r Ffurflen Flynyddol ddim hwyrach na 30 Medi 2015. Os na wnaed newidiadau i'r Ffurflen Flynyddol, ni fyddai angen i'r Cydbwyllgor gymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol ddiwygiedig cyn ei chyhoeddi.

PENDERFYNWYD:-

Cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol am y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2015.

8. **EITEMAU EITHRIEDIG: DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, ADRAN 100A AC ATODLEN 12A (MYNEDIAD AT WYBODAETH)**

PENDERFYNWYD- *Bod y Cyhoedd a'r Wasg yn cael eu heithrio o'r cyfarfod dan ddarpariaethau Adran 100A y Ddeddf uchod, tra'n ystyried yr eitem ganlynol gan ei bod yn cynnwys datgeliad tebygol o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 1 o Atodlen 12A o'r Ddeddf ac yn yr holl amgylchiadau perthnasol, bod lles y cyhoedd mewn cynnal yr eithriad yn fwy na lles y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.*

9. **DIWEDDARIAD CAFFAEL**

Rhoddodd Colin Everett, Prif Weithredwr (Cyngor Sir y Fflint) gyflwyniad manwl ar y sefyllfa parthed y diweddariad caffael.

Yn dilyn trafodaeth fanwl, sicrhawyd yr aelodau y byddai trafodaethau yn ymwneud â chostau ariannol, gan gynnwys cynnal prisiau a'r amserlen ar gyfer y prosiect, yn cael eu cynnal gyda'r contractwr ac is-gontractwyr.

O ran y drwydded ar gyfer gweithredu, dywedodd Colin Everett y byddai'n cysylltu â Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas ag amserlen y drwydded.

PENDERFYNWYD:-

(a) Nodi cynnwys yr adroddiad.

(b) Rhoi awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Prif Weithredwr Arweiniol fynd ymlaen i Gwblhau'r Agweddau Ariannol, yn amodol ar ddim newidiadau materol, gan gynnwys cynnal prisiau, dim newidiadau masnachol newydd a arweinir gan y benthyciwr, a chyfyngu ar y termau digwyddiad iawndal fel y nodwyd yn flaenorol gan y bartneriaeth.

(c) Cynnull cyfarfod pellach i adolygu cynnydd yn erbyn yr amserlen ac unrhyw opsiynau i liniaru unrhyw lithriad cyn Dyfarnu'r Contract a'i lofnodi, ac i adolygu risgiau a manteision Cytundeb Gweithiau Cynnar.

10. **UNRHYW FATER ARALL**

Dim.

(Daeth y cyfarfod i ben am 2.50 pm)